# Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru

**Cyfarfod rhithwir**
**Dydd Iau 22 Medi 2022**

## Cofnodion

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Jane Hutt AS | Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (Cadeirydd) |
| Jeff Cuthbert | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent (Cyd-gadeirydd) |
| Syr Robert Buckland, | Aelod Seneddol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Lynne Neagle AS | Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant |
| Wendy Williams | Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) |
| Sarah Cooper | Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) |
| Richard Lewis | Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys |
| Pam Kelly | Prif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Richard Debicki | Prif Gwnstabl Dros Dro Heddlu Gogledd Cymru |
| Amanda Blakeman | Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Steve Cockwell | Prif Gwnstabl Dros Dro Heddlu Dyfed Powys |
| David Thorne, | Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu De Cymru |
| Dafydd Llywelyn, | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Andy Dunbobbin | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Alun Michael, | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Eleri Thomas, | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Wayne Jones | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Jon Drake | Cyfarwyddwr Uned Atal Trais Cymru |
| Liz Lalley | Cyfarwyddwr Interim — Ailgychwyn ac Adfer, Llywodraeth Cymru |
| Gary Haggaty, | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Tracey Breheny | Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Cyffuriau a Grwpiau sy'n Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru |
| Lucy Akhtar | Uwch Reolwr y Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Jayne Phillips | Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Leanne Lewis | Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Kate Edmunds | Ymgynghorydd Arbennig, Llywodraeth Cymru |
| Chris Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Asim Hafeez | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu a Strategaeth Ryngwladol a Domestig, Y Swyddfa Gartref |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLlLC |
| Holly Roberts | Rheolwr Cyfathrebu a Digwyddiadau, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru |
| Chris Llywelyn | Prif Weithredwr CLlLC |
| Carys Morgans | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Stephen Hughes, | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Asif Afsar | Rheolwr Polisi Cymru Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC) |
| Joanna Huddleston | Gweinyddydd, Uned Cyswllt yr Heddlu |

<u>Ymddiheuriadau</u>

| | |
|---|---|
| Amy Rees | Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru |
| Sarah Capstick | Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel CLlLC |
| James Searle | Pennaeth Tîm Troseddau a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru |
| Emma Wools | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Reg Kilpatrick | Cyfarwyddwr Cyffredinol Ymateb COVID-19, Llywodraeth Cymru |
| Judith Paget | Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Tracy Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

**Camau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod**

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynllun Gweithredu ar Gyfiawnder Troseddol i ddod yn eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Plismona Cenedlaethol Cymru | CC Kelly | |

## 1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

Agorodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y cyfarfod ac estynnodd groeso i aelodau Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Soniodd y Gweinidog fod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn rhithiwr unwaith eto ond atgyfnerthodd y bwriad mai hybrid fyddai cyfarfodydd yn y dyfodol. Croesawodd Syr Robert Buckland AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a nodwyd ymddiheuriadau fel yr uchod.

Hysbysodd y Gweinidog y mynychwyr y byddai'n cadeirio awr gyntaf y cyfarfod ac yna'n trosglwyddo'r awenau i'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Arweiniol, Jeff Cuthbert.

## 2. Gair o Groeso a Sylwadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Dywedodd y Gweinidog ei bod wrth ei bodd bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gallu ymuno â'r cyfarfod.

Diolchodd Syr Robert Buckland AS i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol am ei chyflwyniad a nododd ei fod yn falch o fod wedi gallu ymuno â'r cyfarfod. Esboniodd ei fod wedi gweithio'n agos â llawer o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu pan oedd yn Arglwydd Ganghellor ac yn Ysgrifennydd Gwladol Cyfiawnder. At hynny, nododd fod ganddo brofiad proffesiynol yng Nghymru hefyd a'i fod yn aelod o'r Bar am bron i 20 mlynedd, yn erlyn ac yn amddiffyn. Mae hyn yn golygu bod ganddo ymwybyddiaeth dda o Heddluoedd Cymru yn ogystal ag o lawer o'r unigolion sy'n darparu Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Roedd Syr Robert yn awyddus i gofnodi ei ddiolch i'r holl heddluoedd yng Nghymru ond soniodd am Heddlu De Cymru yn arbennig am weithio i sicrhau bod y digwyddiadau pwysig ond prudd yr ychydig wythnosau diwethaf fel y Proclamasiwn yng Nghastell Caerdydd, y gwasanaeth yn Llandaf a'r digwyddiadau yn y Senedd, oll yn fodelau o drefnu a chynllunio da, a sicrhau ei fod yn lle diogel i bawb a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad, yn ogystal ag i'r cyhoedd.

Esboniodd mai hwn oedd y tro cyntaf iddo fynychu Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn rhinwedd ei swydd fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Dywedodd Syr Robert ei fod yn gweld ei rôl fel un o gynullydd, yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel ei gilydd i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau. Nododd fod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo yn recriwtio Swyddogion Heddlu ychwanegol i heddluoedd Cymru; erbyn diwedd mis Mehefin

2022, mae 617 o swyddogion ychwanegol wedi'u recriwtio, yn erbyn dyraniad o ychydig dros 1000, sy'n tystio i waith caled ac ymdrechion pawb dan sylw. Nododd hefyd ei fod yn edrych ymlaen at fod yn bresennol yn agoriad Canolfan Ddysgu Heddlu De Cymru ar 30 Medi 2022, ac at gymryd rhan yn y digwyddiad.

Cyfeiriodd Syr Robert at yr eitem ar yr agenda ar Gamddefnyddio Sylweddau drwy nodi y bydd cynnal Uwchgynhadledd Weinidogol Cyffuriau'r DU yn ddiweddarach eleni yn darparu cyfle, mewn perthynas ag arweinyddiaeth yn y maes hwn, i ddangos y gwaith mae ei fwrdd yn ei wneud ond hefyd i rannu arferion gorau ar draws y DU, er enghraifft yr heriau mae'r Alban wedi'u hwynebu ynghyd â'u hymatebion i Gamddefnyddio Sylweddau.
Nododd yr Ysgrifennydd Gwladol fod y Gweinidog Heddluoedd newydd, Jeremy Quin AS, hefyd yn gyfarwydd â Chymru ac yn teimlo y bydd y bwrdd yn gallu gweithio gydag ef, yn effeithlon ac ar y cyd, i gyflawni blaenoriaethau cyffredin.

Diolchodd y Cadeirydd i Syr Robert am fynychu ac am siarad heddiw a dywedodd fod ei bresenoldeb a'i sylwadau'n cael eu croesawu am fod y bwrdd yn ymwybodol o'i hanes a'i yrfa yng Nghymru, felly eu bod wrth eu bodd i weithio ochr yn ochr ag ef.

Estynnodd CHTh Cuthbert ei ddiolchiadau hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol ac roedd am roi sicrwydd iddo y bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid yn parhau â'r cytundebau cydweithredol sydd yn eu lle ar draws Cymru a Lloegr. Soniodd fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi cael cyfarfod byr gyda Jeremy Quin AS a oedd o gymorth, a chynghorodd y caiff ei wahodd i fynychu Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn y dyfodol i alluogi'r Gweinidog i ymgyfarwyddo'n llawn â threfniadau yng Nghymru.

### 2a. Penodiadau Gweinidogol Llywodraeth y DU — Perthnasau yn y Dyfodol

Soniodd y Cadeirydd fod Jeremy Quin AS wedi cyfarfod eisoes â rhai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac wedi bod yn gweithio ochr yn ochr ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

### 3. Materion Allweddol i'w Trafod

#### 3.1. Camddefnyddio Sylweddau: Y Data Diweddaraf ar Farwolaethau'n Gysylltiedig â Chyffuriau ac Ymateb y Bartneriaeth

Cyflwynodd y Cadeirydd y pwnc ac roedd yn falch o gael cwmni'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Gwahoddodd CHTh Llywelyn a PGC Thorne i siarad ar yr eitem hon. Cyflwynodd CHTh Llywelyn yr eitem drwy gynghori y bydd PGC Thorne yn trafod yr adroddiad a gyflwynwyd gan Blismona yng Nghymru. Roedd CHTh Llywelyn yn hapus i nodi ei fod wedi gweld newid cadarnhaol a gwaith mwy deinamig a chydweithredol ar faterion hollbwysig fel marwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau. Pwysleisiodd CHTh Llywelyn nad yw Plismona yng Nghymru am i Gamddefnyddio Sylweddau gael ei dynnu oddi ar yr agenda [ar gyfer y Bwrdd wrth fwrw ymlaen, am eu bod y awyddus i'r momentwm gael ei gynnal]. Roedd yn falch gweld ffocws penodol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ffurf Strategaeth Gyffuriau'r DU a Chynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru. Esboniodd fod Plismona yng Nghymru yn ceisio rheoli gofynion y trefniadau datganoledig ac annatganoledig sydd ar waith, ar yr un pryd.

Atgoffodd PGC Thorne y grŵp mai ymagwedd driphlyg sydd ganddynt yng Nghymru:

ymyrraeth ac atal cynnar drwy atal pobl rhag dod yn gaeth yn y lle cyntaf, torri'r cylch caethiwed a mynd i'r afael yn ddidostur â materion cyflenwi. Esboniodd fod y drefn yng Nghymru yn dda iawn ar hyn o bryd, am fod Byrddau Cynllunio Ardal ar draws Cymru lle mae'r holl bartneriaid yn cydweithredu gyda'r nod o ddylunio gwasanaethau trin mewn perthynas â'r materion sy'n disgyn yn yr ardal honno. At hynny, yn yr Heddluoedd ac yn swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, mae Grŵp Prif Swyddogion ar Lywodraethu Camddefnyddio a gaiff ei gadeirio gan PGC Thorne, ac yn ogystal, yn y fforwm amlasiantaeth, mae Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Marwolaethau'n gysylltiedig â Chyffuriau (NIBDPP) sy'n cael ei gyd-gadeirio gan PGC Thorne a Tracey Breheny o Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae adnoddau ac arweinwyr strategol wedi'u neilltuo ar draws Plismona yng Nghymru ac asiantaethau partner.

Dymunai PGC Thorne amlygu Papur Gwyn Llywodraeth y DU, *Swift, Certain and Tough*, am fod elfennau o'r papur mae Plismona yng Nghymru yn cytuno â nhw, fel Cynyddu Cyrsiau Ymwybyddiaeth Cyffuriau. Fodd bynnag, mae rhai pryderon mewn perthynas â'r ymagwedd gyffredinol at gynlluniau dargyfeirio. Esboniodd y byddai heddluoedd Cymru'n croesawu'r gallu i gynnal lefel o ddisgresiwn a'r gallu i ddylunio hynny mewn ffordd sydd wedi'i theilwra ar gyfer carfan arbennig o unigolion sy'n bodoli ym mhob cymuned. Yn ychwanegol, mae Heddluoedd Cymru'n gofyn am y gallu i adlewyrchu nodweddion agored i niwed llawer o unigolion sy'n defnyddio ac yn camddefnyddio sylweddau.

Mewn perthynas â'r data am farwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau, nododd PGC Thorne eto ei bwyntiau blaenorol am y systemau sydd ar waith a'r gwaith partneriaeth yng Nghymru; fodd bynnag, mae nifer y marwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau'n annerbyniol. Cynghorodd fod cynnydd o 32% wedi bod yn y marwolaethau oherwydd gwenwyno drwy gyffuriau eleni yn ogystal â chynnydd o 42% yn y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau; amlygodd fod y ffigurau uchod yn ystadegau o 2017 pan alwyd digwyddiad critigol ym Mae Abertawe. Er gwaethaf y gwaith sy'n mynd rhagddo, mae heriau y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw ar fyrder.

Cynghorodd PGC Thorne fod y cynnydd yn y marwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau oherwydd nifer o ffactorau, fel cymhlethdod ffyrdd o fyw'r unigolion sy'n defnyddio ac yn camddefnyddio sylweddau, bod cynnydd o ran faint o gocên a gymerir a chynnydd yn y defnyddwyr hirdymor sy'n gorddosio ac yn marw o ganlyniad. Yn ogystal â hyn, mae mynychder llawer iawn yn y defnydd o gyffuriau lluosog fel cynnydd yn y defnydd o *benzodiazepine* ochr yn ochr â chyffuriau eraill fel cocên a heroin. Esboniodd PGC Thorne mai aml-ddefnydd sy'n arwain at farwolaethau oherwydd cyffuriau. Felly, mae Plismona yng Nghymru o'r farn bod gofyn am gynnydd yn y driniaeth am yr agwedd seico-gymdeithasol ar ffyrdd unigolion o fyw am eu bod yn teimlo'i bod yn fwy tebygol o gyflawni canlyniadau na'r therapïau traddodiadol o gynnig pethau amgen i opioidau.

Oherwydd y cynnydd sylweddol yn y marwolaethau oherwydd cyffuriau, mae Abertawe yn symud nôl i sefyllfa lle datganwyd Sefyllfa o Ddigwyddiad Critigol yn flaenorol. Mae Plismona yng Nghymru yn y broses o gynyddu dulliau rhannu data ac i alluogi hyn, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i roi systemau newydd yn eu lle i gyflymu a gwella'r dulliau rhannu data rhwng asiantaethau a fyddai'n caniatáu i heddluoedd a phartneriaid roi ymyraethau ar waith. Yn ogystal â hyn, mae Plismona yng Nghymru yn canolbwyntio ar Banel Amlasiantaeth Dwys; mae hon yn ymagwedd debyg i'r hyn a ddefnyddiwyd wrth greu Rhaglenni Integredig Rheoli Troseddwyr a Rhaglenni Cudd-wybodaeth ar y Cyd lle mae fforymau amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf drwy eu bywydau cymhleth a thrwy gamddefnyddio sylweddau. Y nod yw tynnu gwybodaeth o'r holl ffynonellau perthnasol at ei gilydd yn rheolaidd i sicrhau bod y driniaeth sydd yn ei lle yn briodol ac yn gweithio, a bod yr

unigolion yn ymgysylltu â hi. Sicrhau yr eir i'r afael â materion ategol fel arian, tai a chyflogaeth ar yr un pryd, am eu bod o'r farn mai hon yw'r ymagwedd orau er mwyn torri'r cylch.

Esboniodd PGC Thorne y bydd Plismona yng Nghymru yn chwilio am gymorth o ran annog asiantaethau ar draws Cymru i weithio gyda'i gilydd ond hefyd ym meysydd cyllid ac atebion TG i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn. Pwysleisiodd mai'r ffactor pwysicaf yw bod angen cyflawni hyn ar frys.

Diolchodd y Cadeirydd i PGC Thorne am ei gyflwyniad ac am y papur a gyflwynwyd, a gwahoddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Llesiant, Lynne Neagle MS, i gynnig sylwadau.

**3.1.1.** Diolchodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant (DWIMLl) i'r CHTh Llywelyn a PGC Thorne am eu papur. Diolchodd hefyd i PGC Thorne am ei gydnabyddiaeth gadarnhaol o rôl y Byrddau Cynllunio Ardal a'r cydweithredu allweddol sy'n parhau ar y Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Marwolaethau oherwydd cyffuriau (NIBDPP). Yn ogystal, nodwyd bod Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar iawn i fod wedi gweld sylwadau roedd Plismona yng Nghymru wedi'u gwneud mewn perthynas â'r Papur Gwyn, *Swift, Certain and Tough*, a chynghorwyd y bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno'i hymateb ei hun maes o law ac yn rhannu ei hymateb hefyd.

Trafododd y Dirprwy Weinidog y mater mewn perthynas â chynnydd yn y marwolaethau oherwydd cyffuriau a phwysleisiodd fod unrhyw farwolaeth oherwydd cyffuriau'n drasiedi a'i bod o bryder mawr bod marwolaethau wedi cynyddu yn ystod 2021. Nododd er bod hyn wedi digwydd yn y cyd-destun heriol iawn o ymateb i'r pandemig Covid-19, y bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos â rhanddeiliaid i geisio deall yn well y ffactorau y tu ôl i'r ffigurau hyn a chytunodd ei fod yn faes lle mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn parhau i weithio gyda'r NIBDPP.

Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog y ffaith bod yr ymagwedd yng Nghymru wedi'i hymwreiddio i raddau helaeth iawn mewn lleihau niwed ac ymagwedd at gamddefnyddio sylweddau lle mai ar iechyd y cyhoedd mae'r ffocws, a bod Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig iawn at barhau â'r agenda honno. Atgoffwyd pawb gan y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru'n buddsoddi bron i £64m ar hyn o bryd mewn mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, sydd wedi'i glustnodi, yn ogystal â £1m yn ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc, £4m i fynd i'r afael ag amseroedd aros, i gefnogi gwelliannau fel datblygu gwasanaethau sydd wedi'u hysbysu gan drawma a gweithrediadau yn sgil argymhellion y Fframwaith Niwed i'r Ymennydd yn Gysylltiedig ag Alcohol. Cytunodd gyda phwynt PGC Thorne fod llawer o ffactorau cymdeithasol yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau felly mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fuddsoddi mewn mentrau cymorth cyflogaeth er gwaethaf y ffaith bod cyllid Ewropeaidd wedi'i golli.

Aeth y Dirprwy Weinidog i'r afael ag ychydig bwyntiau y soniwyd amdanynt yn y papur; nododdd fod Llywodraeth Cymru'n awyddus i weithio gyda heddluoedd i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gydnabod yn benodol bwysigrwydd rhannu data. Ailnododd ei gwerthfawrogiad am y gydnabyddiaeth yn y papur fod angen i'r gael hwn fynd rhagddo mewn partneriaeth â Byrddau Cynllunio Ardal. Cynghorodd y Dirprwy Weinidog hefyd ei bod yn edrych ymlaen at ymweld ag Abertawe i weld rhai partneriaethau yn yr ardal sy'n gweithio gyda Phrosiect ADDER.

**3.1.2.** Amlygodd CHTh Michael ei fod yn hapus iawn ar y gwaith mae PGC Thorne, Angharad Metcalfe a Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i gyfrannu at hyn. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod pedair blynedd wedi mynd heibio ers i'r mater hwn ddod gerbron Bwrdd Partneriaeth Plismona

Cymru ar yr un pryd â digwyddiad critigol a ddatgelwyd gan ddau o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Abertawe a galwyd i gynhyrchu cynllun gweithredu a fyddai'n galluogi Plismona a phartneriaid eraill i ddechrau mynd i'r afael â'r broblem. Esboniodd fod y cylch gwaith wedi'i roi i'r Bwrdd Cynllunio Ardal i gyflawni'r cynllun yn sgil trydydd cyfarfod y ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Crybwyllodd CHTh Michael ei fod wedi cynghori bod diffyg gweithredu o du'r Bwrdd Cynllunio Ardal yng nghyfarfod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru ym mis Mehefin 2022. Fodd bynnag, roedd am ddiolch bod llythyr wedi'i anfon at Gadeirydd Bwrdd Cynllunio Ardal Bae Abertawe ar yr un pryd ag yr oedd CHTh Michael wedi anfon llythyr ar ran Plismona yng Nghymru yn amlinellu pryder am ddiffyg cynnydd yn ardal Bae Abertawe. Roedd CHTh Michael o'r farn bod Plismona a Llywodraeth Cymru'n ymdrechu i gyrraedd yr un nod. Roedd yn falch dweud mai'r ymateb gan arweinwyr y ddau Awdurdod Lleol oedd bod angen mynd i'r afael â'r mater felly cytunwyd i adsefydlu Sefyllfa o Ddigwyddiad Critigol ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n mynd i weithio gydag Angharad Metcalfe mewn perthynas â dadansoddi'r hyn a wnaed eisoes er mwyn sicrhau bod unrhyw fylchau'n cael eu llenwi yn ogystal â rhoi sylw i'r argymhellion a amlinellwyd gan PGC Thorne.

Nododd CHTh Michael mai'r gwir plaen amdani yw, ar ôl gostyngiad bach yn nifer y marwolaethau yn dilyn y pryder cychwynnol, bod marwolaethau oherwydd cyffuriau wedi cynyddu draean ar draws Cymru at ei gilydd, gan gynnwys yn Abertawe lle disgrifiwyd mai dyma oedd y lle â'r nifer uchaf o farwolaethau yng Nghymru a Lloegr heblaw Blackpool. Roedd hefyd am amlinellu'r ffaith mai marwolaethau oherwydd cyffuriau yw'r unig arwydd syfrdanol o'r broblem, ond bod effaith hefyd ar gymunedau a theuluoedd, effaith Llinellau Cyffuriau yn ogystal â'r effeithiau ar wasanaethau fel prawf a iechyd, felly mae'n awyddus i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd unwaith bydd cynllun yn ei le.

**3.1.3.** Ymatebodd yr Ysgrifennydd Gwladol i sylwadau CHTh Michael drwy esbonio bod dwy elfen i'r mater; mae'r mater hirdymor o farwolaethau oherwydd cyffuriau ac afiechyd cronig sy'n gallu arwain at farwolaeth, a hefyd y mater yn gysylltiedig â Chyfiawnder Troseddol sydd, yn ei dyb ef, yn rhyng-gysylltiedig, sef y rheswm dros lunio'r Papur Gwyn, sy'n ceisio creu mwy o sicrwydd mewn perthynas â'r rhai sy'n newydd i gamddefnyddio sylweddau ac sy'n defnyddio cyffuriau mynediad. Pwysleisiodd ei fod o'r farn ei bod yn bwysig dod â sicrwydd i'r broblem am y bu negeseuon anghyson yn y gorffennol ynghylch i ba raddau mae camddefnyddio sylweddol yn cael ei gymryd o ddifrif. Pwysleisiodd nad adlewyrchiad o blismona mohono, ond dadansoddiad yn hytrach o'r methiant mewn polisi ac anghysondeb ac effaith hyn ar y system gyfiawnder. Aeth ymlaen i ddweud bod y Papur Gwyn wedi'i ddatblygu gan Kit Malthouse AS ond ei fod wedi gweithio ar wraidd y syniad ei hun, felly mae'n croesawu'r ymatebion heddiw ac yn cytuno bod modd creu ymateb wedi'i deilwra, gyda ffiniau cenedlaethol clir, am y byddai risg o ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol heb hyn yn ei le.

Nododd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei fod wedi'i daro gan dudalen olaf yr adroddiad cynnydd Camddefnyddio Sylweddau, yn arbennig y deilliannau posibl y gellid eu cyflawni gyda rhagor o rannu data; yn hyn o beth awgrymodd greu amserlen ar gyfer y deilliannau gyda nifer o dargedau a fyddai'n rhoi rhywbeth i bartneriaid weithio gydag ef, ond pwysleisiodd ei fod o'r farn nad yw'n ddewis syml rhwng iechyd a chyfiawnder am eu bod yn aml iawn yn gorgyffwrdd.

**3.1.4.** Roedd Chris Jennings am gadarnhau bod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn awyddus i gefnogi'r cynllun ac roedd o'r farn bod cyfle i weithio'n ddwys gydag unigolion tra'u bod yn y ddalfa a fyddai'n eu cynorthwyo adeg eu rhyddhau. Roedd hefyd am amlygu'r ffaith bod cyffuriau presgripsiwn yn dod yn fwyfwy trafferthus, er bod sylweddau anghyfreithlon yn eithriadol o niweidiol.

**3.1.5.** Cynghorydd CHTh Cuthbert fod yr ymateb cadarnhaol yn galonogol a'i fod yn ei werthfawrogi. Roedd yn awyddus i atgoffa'r bwrdd bod plismona'n wasanaeth a gadwyd yn ôl a bod y polisi '*From Harm to Hope*' yn berthnasol i heddluoedd Cymru yn ogystal ag i heddluoedd Lloegr. Felly, mae'n hanfodol parhau i drafod i sicrhau bod aliniad rhwng y blaenoriaethau.

**3.1.6** Diolchodd PGC Thorne i'r bwrdd am eu hadborth; cytunodd gyda barn yr Ysgrifennydd Gwladol fod y materion yn gorgyffwrdd a chynghorodd mai yma hefyd oedd barn plismona, gyda'r ymagwedd driphlyg, ac esboniodd fod atal unigolion rhag syrthio i gaethiwed o fewn cylch gwaith iechyd, bod mynd i'r afael â chyflenwi o fewn cylch gwaith yr heddlu ac mai ym maes torri'r cylch caethiwed mae materion yn gorgyffwrdd, a bod angen gweithio ar y cyd.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn a nododd y bu'n drafodaeth adeiladol. Cadarnhaodd y bydd hyn yn aros ar yr agenda am fod gofyniad i weithio gyda'n gilydd ar y mater difrifol hwn.

**3.2. Rhaglen Arolygu Tair Blynedd HMICFRS (Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi) Goblygiadau ar gyfer Meysydd Polisi Datganoledig yng Nghymru**
Croesawodd y Cadeirydd Wendy Williams AEF i Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru a chyflwynodd yr eitem, gan esbonio y bydd PG Vaughan hefyd yn siarad ar yr eitem hon.

Diolchodd AEF Williams i'r Gweinidog a CHTh Cuthbert am y cyflwyniad ac esboniodd ei bod yn bwriadu trafod y Rhaglen Arolygu a'r fframwaith ar gyfer y tair blynedd nesaf. Esboniodd fod y Rhaglen Arolygu'n cynnwys dwy set o arolygiadau: Arolygiadau Rhaglen Dreigl ac Arolygiadau Thematig ar y Cyd sy'n cael eu hystyried gan HMICFRS yn rhai ategol.

Esboniodd mai prif Arolygiad Arolygiadau'r Rhaglen Dreigl yw Arolygiad Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu (PEEL) lle caiff tair agwedd eu hadolygu:

- Asesiad Sefydliadol sy'n asesu sut y caiff yr heddlu eu trefnu
- Asesiad Gweithredol sy'n asesu sut y caiff gwasanaethau eu darparu
- Asesiad Defnyddwyr Gwasanaethau

Mae naw maes plismona sy'n disgyn o dan dri chategori asesu:

Sefydliadol, sef sut mae heddlu'n trin ei weithlu ac i ba raddau mae llesiant yn cael ei flaenoriaethu, arweinyddiaeth, cynllunio strategol ac ariannol.

Mae asesiad gweithredol yn adolygu sut mae'r heddlu'n atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sut mae'r heddlu'n ymateb i'r cyhoedd, sut mae'n cyflawni i ymchwiliadau drwy edrych ar ansawdd, cynllunio a goruchwyliaeth. Mae'r arolygiad hefyd yn ystyried pa mor dda mae'r heddlu'n diogelu pobl fregus gan gynnwys cam-drin domestig, amddiffyn plant a phlant sy'n mynd ar goll drwy ystyried pa mor effeithiol yw'r heddlu am asesu hyglwyfedd ar y pwynt cyswllt cyntaf ac yna dilyn i fyny drwy flaenoriaethau'r gwasanaeth i ddioddefwyr bregus drwy'r broses Cyfiawnder Troseddol. Dwy elfen bellach mewn perthynas â'r asesiad gweithredol yw: rheoli troseddwyr ac unigolion mae'r heddlu yn awyddus i'w dal; at hyn, mae'n asesu pa mor dda mae'r heddlu'n mynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol.

Mae'r Asesiad Defnyddwyr Gwasanaethau yn edrych ar y rhyngweithio rhwng yr heddlu a'r cyhoedd. Enghraifft o hyn yw sut mae aelodau'r cyhoedd yn cael eu trin a sut mae heddluoedd yn ymarfer pwerau fel stopio a chwilio yn ogystal â'r defnydd o rym ac a yw'r adnoddau hyn

yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau ac a oes anghymesuroldeb yn y defnydd o'r pwerau hyn; sicrheir bod yr heddlu'n ymwybodol o hyn ac a ellir esbonio'r rheswm, ac os na, beth mae'r heddlu'n ei wneud i fynd i'r afael â'r materion. Dyma ble mae'r berthynas rhwng yr heddlu a'r cyhoedd mae'n ei wasanaethu ar ei phwysicaf, nid yn unig o ran y defnydd o bŵer ond hefyd i ba raddau mae'r heddlu'n gwahodd aelodau o'i gymuned leol i graffu ar y trefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer y pwerau hyn. Amlygodd AEF Williams y ffaith y bu enghreifftiau o arferion da ymhlith heddluoedd Cymru.

Esboniodd mai rhaglen dwy flynedd yw hi; mae HMICFRS yn arolygu pob un o'r 43 o heddluoedd ac mae'r arolygiadau yn cynnwys barnau â graddau. Mae HMICFRS wedi arolygu 26 o'r 43 o heddluoedd hyd yma ac mae rhai themâu'n dod i'r amlwg; un o'r prif themâu yw cyflymder ymateb i alwadau, ac mae hyn yn cynnwys galwadau 999 a galwadau eraill am wasanaeth, fel ei gilydd. Nododd y dylai'r heddlu flaenoriaethu'r ymateb os oes rhywun bregus neu ddioddefwr mynych yn adrodd am drosedd, yn unol â hyglwyfedd a blaenoriaeth yr alwad; mae'r heddluoedd yn ymwybodol o hyn ond yn cael trafferth rheoli'r galw. Thema arall o bwys mae heddluoedd yn ymdrin â hi er gwaethaf y ffaith bod y rhaglen recriwtio (*Uplift*) wedi recriwtio 20,000 o swyddogion newydd ar draws yr heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, yw bod nifer fawr o swyddogion cymharol ifanc yn y gwasanaeth, ac felly mae diffyg profiad yn thema sy'n dod i'r amlwg.

Trafododd AEF Williams ambell i Arolygiad Thematig wrth iddi atgyfnerthu'r ffaith ei bod o'r farn bod y Rhaglen Dreigl a'r Rhaglenni Arolygiadau Thematig ar y Cyd yn ategu ei gilydd. Mae HMICFRS yn trafod meysydd sydd yn eu barn hwy'n rhai pynciol ac felly'n bwysig i blismona a'r cyhoedd yn ehangach, er enghraifft, mae pynciau arolygiadau blaenorol wedi cynnwys camdriniaeth ar sail anrhydedd a stelcio ac aflonyddu. Mae HMICFRS yn tueddu i gynnwys heddlu o Gymru mewn Arolygiadau Thematig oherwydd nad ydynt yn ymweld â phob un o'r 43 o heddluoedd wrth arolygu; yn hytrach dewisir 6-8 o heddluoedd fel arfer a'r rhesymeg dros ddewis heddlu o Gymru yw bod gweithredu strwythur datganoledig yn golygu bod dyletswydd statudol i'r pedwar heddlu gydweithredu, a gall hyn arwain at nifer o feysydd o arfer da mewn perthynas â chydweithredu â gwasanaethau cyhoeddus, a allai fod o fudd i heddluoedd eraill. Mae gan HMICFRS gyfrifoldeb i hyrwyddo gwelliannau mewn plismona; rhoddodd AEF Williams enghraifft o arolygiad blaenorol a dynnodd yr egwyddorion hyn i'r amlwg, a hynny oedd eu harolygiad o Covid-19, sef maes lle daeth strwythur datganoledig a gweithrediad gwasanaethau datganoledig yng Nghymru i'r amlwg.

Trafododd AEF Williams Arolygiadau Thematig ar y Cyd HMICFRS i'r ffordd caiff achosion o drais eu hymchwilio a'u herlyn. Esboniodd mai hwn oedd yr arolygiad manylaf i HMICFRS ymgymryd ag ef; roeddent wedi adolygu oddeutu 600 o achosion ac am y tro cyntaf, trafodwyd sut câi achosion eu hymchwilio a'u herlyn o'r adeg gwneud yr alwad i'r heddlu hyd at ddiweddglo'r achos ni waeth beth oedd y canlyniad. Canfuwyd bod y system Cyfiawnder Troseddol yn methu dioddefwyr trais, ac felly galwodd HMICFRS am ddiwygio helaeth wedi'i ategu gan gyllid hirdymor er mwyn magu hyder y cyhoedd. Hefyd, adolygwyd nid yn unig y ffaith bod gofyn am ddiwygio brys o system y llysoedd yn ei chyfanrwydd, ond nododd HMICFRS hefyd rai o'r agweddau diwylliannol amlycaf, am fod erlyniadau'n tueddu i ganolbwyntio ar y dioddefwr yn hytrach nag adeiladu ar gryfderau'r achos, gan esbonio felly yr angen am newid diwylliannol a fyddai'n arwain at newid agweddau yn ogystal ag ymateb mwy cydweithredol.

Argymhellodd HMICFRS hefyd y dylai fod llysoedd arbenigol i ymdrin â threialon trais oherwydd yr ôl-groniad helaeth o achosion, gyda golwg ar adolygiad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref o ran ymarferoldeb model y llys arbenigol fel datblygiad posibl yn y dyfodol. Nododd AEF Williams fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi derbyn yr

argymhelliad a bod llysoedd arbenigol wedi'u cyflwyno ar draws y DU. Yn ogystal â'r argymhellion mewn perthynas â newid diwylliannol sydd wedi'u mabwysiadu ar ffurf Ymgyrch Soteria, mae'r egwyddorion hynny sydd wedi'u seilio ar ddysgu, adeiladu achosion cadarn a chanolbwyntio ar y troseddwr yn mynd rhagddynt ar draws heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Trafododd AEF Williams Arolygiadau Thematig presennol HMICFRS i Hil a Phlismona. Fel arolygiaeth maent yn edrych at feysydd plismona lle mae ffocws cadarn a fydd yn esgor ar ganlyniad cadarnhaol. Yn ogystal â hyn, mae'r NPCC (Cyngor Prif Swyddogion yr Heddlu) a'r Coleg Plismona wedi ymrwymo i'r Cynllun Gweithredu ar Hil, felly teimlai'r HMICFRS y dylent ganolbwyntio ar Hil a Phlismona. Ailnododd fod HMICFRS yn adolygu pwerau'r heddlu, fodd bynnag maent yn olrhain y camau gweithredu ac yn edrych ar themâu arbennig o ganlyniad i hyn. Mae'r Rhaglen Arolygiadau Hil a Phlismona yn cynnwys tair elfen, sef; Arweinyddiaeth a Llywodraethu, Gwahaniaethau mewn gwaith Gwneud Penderfyniadau yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Chymunedau a Hyder.

Diolchodd y Cadeirydd i AEF Williams am ei mewnbwn pwysig. Trosglwyddodd y Gadeiryddiaeth i CHTh Cuthbert ond cynghorydd ei bod yn edrych ymlaen at gyfarfod â hi i drafod y materion hyn ymhellach.

**3.2.1.** Nododd CHTh Cuthbert ei bod yn rhagorol cael ei phresenoldeb ym Mwrdd Partneriaeth Plismona Cymru er mwyn iddi weld y ffordd mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd yng Nghymru i gyflawni'r nodau hyn.

**3.2.2.** Diolchodd PG Vaughan i AEF Williams am ei chyflwyniad a mynegodd ei werthfawrogiad am ei hymagwedd fel arolygydd am ei bod bob amser yn rhoi cyfle i drafod unrhyw anghytundebau, a gwneir hyn gyda pharch ar y ddwy ochr. Esboniodd fod Plismona yng Nghymru yn wynebu nifer o heriau, gan gynnwys nifer yr arolygiadau yng Nghymru am fod HMICFRS yn dewis heddlu o Gymru fel y nodwyd cynt, ac felly weithiau mae'n teimlo fel bod llawer llai o adegau pan nad oes arolygiad ar waith nag adegau pan fod arolygiad yn mynd rhagddo, ac felly cwestiynodd a yw asiantaethau eraill yn teimlo'r un faint o bwysau arolygu. Yr her arall mewn perthynas â'r ffordd mae heddluoedd yng Nghymru yn gweithio gydag Arolygiaeth sy'n arolygu yn erbyn safonau sy'n cael eu gosod mewn un weinyddiaeth, sef Lloegr, yw pan eu bod yn gweithredu mewn gweinyddiaeth arall fel Cymru. At hynny, mae PG Vaughan o'r farn bod dealltwriaeth gynyddol arwahanol o helaethdra'r genhadaeth blismona o ran y ffactorau mae gofyn i blismona ganolbwyntio arnynt o'u cymharu â'r ffactorau mae plismona'n canolbwyntio arnynt go iawn o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, soniodd PG Vaughan fod rhai cyfleoedd ar y gorwel, gan gynnwys adolygiad Syr Stephen House o effeithlonrwydd a chynhyrchiant mewn plismona a gomisiynwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref am ei fod o'r farn y bydd o fudd i blismona os gallant ddarparu disgrifiad manylach o'r hyn y maent yn ei wneud.

Ymatebodd PG Vaughan hefyd i sylwadau AEF Williams mewn perthynas â thrais a chynghorodd fod Heddlu De Cymru yn heddlu sy'n rhan o Ymgyrch Soteria, a nododd y bydd yr holl heddluoedd yng Nghymru'n dod yn heddluoedd Ymgyrch Soteria cyn bo hir a bod Heddlu De Cymru eisoes yn gweld gwelliant yn ei ganlyniadau. Soniodd PG Vaughan ei fod wedi codi'r mater sawl tro ynghylch a ddylai fod trafodaeth am ddigonolrwydd y gyfraith mewn perthynas â thrais a'r ddau rwystr y mae angen i bobl eu goresgyn er mwyn erlyn, sy'n cael sgil-effaith ar benderfyniadau cyhuddo. Cynghorodd fod trafodaeth ehangach am y system Cyfiawnder Troseddol, gynnwys ei chymhlethdod a ble mae'r baich yn disgyn mewn perthynas â datgelu. Pwysleisiodd PG Vaughan y ffaith bod heddluoedd yng Nghymru yn ymrwymedig i weld a chyflawni gwelliannau.

Soniodd PG Vaughan fod heddluoedd Cymru'n croesawu'r Rhaglen Arolygiadau ond byddai'n nodi bod Cynllun Gweithredu ar Hil y system Cyfiawnder Troseddol mae heddluoedd Cymru wedi ymrwymo iddo'n gynhwysfawr ac yn ymrwymiad gwaith anferth. Cwestiynodd a ellid ystyried hyn ar y cyd ag unrhyw raglen arolygu am fod darnau o waith mae heddluoedd Cymru'n ymrwymo iddynt yn y cynllun a allai ddarparu gwybodaeth a bod o gymorth yn hynny o beth.

Pwysleisiodd PG Vaughan ei ddiolchiadau i AEF Williams ac am y cyfle i godi'r materion hyn.

**3.2.3.** Estynnodd PG Kelly ei gwerthfawrogiad i AEF Williams. Nododd mai'r mater i Heddlu Gwent yw sut mae heddluoedd gyda'i gilydd yn herio rhai o'r materion ehangach sy'n effeithio'n sylweddol ar ddioddefwyr a chymunedau fel ôl-groniadau yn ystod Covid-19, mwy o alw yn sgil canllawiau'r Twrnai Cyffredinol a streic y Bargyfreithwyr ar hyn o bryd. Cynghorodd PG Kelly ei bod wedi gofyn i rai o'i staff ddilyn achosion i gael gwybod pa effaith mae pob un o'r materion hyn wedi'i chael ar ddioddefwyr neu ar achosion sy'n mynd i'r llys; nododd fod hyn wedi cael effaith sylweddol. Er enghraifft, bu tri achos llofruddiaeth sydd wedi'u gohirio am 7 mis ychwanegol ac nid yw hyn yn ei barn hi'n helpu hyder y cyhoedd. Felly, mae'n pendroni am nerth llais torfol yr asiantaethau cyfiawnder troseddol i ddylanwadu ar y ddadl am Gyfiawnder Troseddol.

Esboniodd fod HMICFRS yn arolygu heddluoedd unigol ond pwysleisiodd fod argyfwng cenedlaethol y mae angen ei herio. Holodd PG Kelly am farn HMICFRS ar y mater hwn a beth gall HMICFRS ei wneud i gefnogi heddluoedd yn hyn o beth.

**3.2.4.** Ymatebodd AEF Williams i sylwadau PG Kelly drwy nodi ei bod yn gais hollol deg ar yr Arolygiaeth am nad yw'n ddigon canolbwyntio ar yr hyn nad yw'n gweithio; mae gan HMICFRS rôl o ran bod yn rhan o'r ateb. Cynghorodd fod y Prif AEF Andy Cook o'r un farn ac am mai ef yw'r Prif Arolygydd, mae'n rhyddhad anferth am ei fod ef o'r farn y dylai HMICFRS fod yn rhagweithiol o ran hwyluso'r trafodaethau hyn.

Amlygodd hefyd fod rôl i HMICFRS ei chwarae mewn perthynas ag Arolygu ar y Cyd oherwydd petai rhywun yn ystyried mai trais yw'r llinell sylfaen, ni allai HMICFRS ystyried plismona yn unig, am ei fod yn fater ar draws y system. Amlygodd hyn drwy'r cyfathrebu rhwng gwahanol asiantaethau ac i ba raddau roeddent yn cydweithio neu beidio, a thrwy ganolbwyntio ar y dioddefwr a sut maent yn cael eu trin gan y system sydd wedi'i llunio iddynt. Fodd bynnag, am nad yw'n ymddangos bod hyn yn ateb eu dibenion, mae'n gobeithio bod gwerth arolygu wedi dod i'r amlwg ond pwysleisiodd fod gan HMICFRS fwy o rôl i'w chwarae o ran bod yn rhagweithiol a nodi rhai o'r newidiadau polisi y gall fod eu hangen.

Ymatebodd AEF Williams hefyd i sylwadau PG Vaughan drwy gynghori bod hyn yn drafodaeth barhaus gan HMICFRS o ran y priod weinyddiaethau. Cytunodd eu bod yn gwneud llawer o arolygu a'r disgwyliad gan eu Gweinidogion yw y bydd yr amlder yn cynyddu felly ni all roi sicrwydd y caiff heddluoedd gyfle i wella neu weithredu cynlluniau ac felly gallu dangos bod gwelliant wedi digwydd. Fodd bynnag, nododd y gall roi sicrwydd y caiff HMICFRS drafodaeth am y mater a ble mae cyfleoedd i gwtogi ar rywfaint o'u gweithgarwch, a chymryd cylchoedd gweithredol heddluoedd i ystyriaeth, bydd AEF Williams yn ceisio nodi a rhoi'r rhain ar waith lle y bo'n bosibl.

I gloi, ymatebodd mewn perthynas â'r ddeuoliaeth sydd ar waith i heddluoedd Cymru drwy ddweud ei bod yn gwerthfawrogi'r sefyllfa ac yn teimlo y dylai HMICFRS ddeall hyn yn well

felly gofynnodd am gymorth mewn perthynas â chael dealltwriaeth well er mwyn i AEF Williams ganiatáu iddi fynegi rhai o'r blaenoriaethau cystadleuol sy'n parhau i heddluoedd Cymru.

Diolchodd CHTh Cuthbert i AEF Williams am ei mewnbwn llawn gwybodaeth a chydnabu'r ffordd mae'n ystyried pwysigrwydd gweithio ar y cyd fel sy'n digwydd yng Nghymru a rhoddodd sicrwydd iddi y bydd hyn yn parhau. Mynegodd CHTh Cuthbert ei obaith y bydd hi'n gallu mynychu cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn y dyfodol i barhau â'r ddeialog.

**3.3. Cymru Wrth-hiliol: Diweddariadau ar y Cynllun Gweithredu a'r Camau Nesaf**
Cyflwynwyd yr eitem hon gan CHTh Cuthbert, a arweiniwyd gan PG Vaughan a DGHTh Thomas am nad oedd DGHTh Wools ar gael ar yr achlysur hwn.

Agorodd PG Vaughan y drafodaeth drwy ddiolch i DGHTh Wools am yr holl waith sydd wedi mynd i mewn i ddatblygu'r cynllun hwn ac am ei harweinyddiaeth yn y maes hwn. Nododd PG Vaughan fod awdur Gynllun Gweithredu ar Hil y system Cyfiawnder Troseddol, Mark Jones, wedi gwneud gwaith rhagorol yn casglu ystod o safbwyntiau a heriau i greu dogfen eithriadol. Esboniodd fod ymglymu i'r cynllun hwn yn golygu ymrwymiad anferth gan yr holl bartneriaid ar draws y dirwedd cyfiawnder troseddol ac atgoffodd PG Vaughan bartneriaid o hyn pan lansiwyd y cynllun. Mae'n awyddus i atgyfnerthu'r gwaith mewn perthynas ag unrhyw drefn arolygu a hoffai i'r gwaith a'r ymrwymiad mae heddluoedd yn eu cyfrannu at y cynllun gael eu hadlewyrchu.

Cynghorodd PG Vaughan fod PG Kelly wedi darparu rhai adnoddau dros dro i gynorthwyo a chydlynu'r gwaith o gyflawni'r cynllun, gan gynnwys aseinio cyfrifoldebau i unigolion o fewn Plismona yng Nghymru yn ogystal â gosod amserlenni ar gyfer hyn am fod angen i'r cynllun droi'n set o gamau gweithredu wedi'u hamserlenni y gall unigolion deimlo'n hyderus y byddant yn gallu eu cyflawni.

Dywedodd PG Vaughan ei bod yn gadarnhaol bod y cynllun Cyfiawnder Troseddol wedi'i gytuno gan yr holl bartneriaid ond ei fod yn awyddus i osgoi sefyllfa lle mae asiantaethau'n beirniadu ei gilydd ar sail perfformiad, am fod rhai o'r ymrwymiadau yn y cynllun yn sôn am roi sylwadau ar bolisïau ac arferion ei gilydd ond nododd fod angen ymateb cyffredin i'r her dan arweiniad y system.

Nododd DGHTh Thomas mai nod y cyflwyniad hwn yw rhoi diweddariad i aelodau'r bwrdd ar gynnydd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a phartneriaid cyfiawnder troseddol fel yr amlinellodd PG Vaughan yn ymrwymiad cyffredin Cymru i gyflawni Cymru Wrth-hiliol. Amlygodd ei bod yn teimlo'i bod yn bwysig, yn arbennig i westeion fel AEF Williams a chydweithwyr o Lywodraeth y DU bod y cynllun Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn sownd yn y cyd-destun hwnnw ac yn tanlinellu uchelgais Plismona yng Nghymru ynghyd ag uchelgais Llywodraeth Cymru o gyflawni Cymru Wrth-hiliol.

Cyhoeddwyd y cynllun yn ffurfiol ar 8 Medi 2022; mae'r gwaith o gyflawni'r cynllun ar ddiwedd y cam cyntaf, ac mae angen i waith gael ei gyflawni bellach ar weithredu a chynnal cyflymder yn yr ymrwymiad cyffredin.

Ategodd DGHTh Thomas ganmoliaeth PG Vaughan i'r rhai sydd wedi arwain y gwaith. Aeth ymlaen drwy ddweud mai Amy Rees, Prif Weithredwr HMPPS a ddarparodd yr arweinyddiaeth ar gyfer y cynllun a'r gwaith o'i gyhoeddi, ynghyd â'i hymrwymiad drwy ei

harweinyddiaeth ar Fwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ac effaith.

Talodd DGHTh Thomas deyrnged hefyd i PG Kelly gan sôn am y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth a'r Tasglu ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a arweinir gan PG Kelly, ar y cyd â Chris Jennings, Cyfarwyddwr HMPPS a nododd fod arweinyddiaeth dorfol yn cael ei gwerthfawrogi a'i bod wedi bod yn hollbwysig wrth ddatblygu'r cynllun, ynghyd ag egni ac ymrwymiad DGHTh Wools o ran ein harweinyddiaeth ac ymagwedd go iawn o weithio fel tîm. Roedd DGHTh Thomas o'r farn eu bod wedi creu tîm o bobl sydd wedi gweithio'n gyson ac yn gydweithredol, dan gydlyniaeth Rachel Allen sydd wedi hwyluso'r broses ond pwysleisiodd fod y cynllun yn benllanw'r arweinyddiaeth dorfol ar draws asiantaethau Cyfiawnder Troseddol.

Aeth DGHTh Thomas ymlaen i ddweud bod y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth yn cynrychioli ymagwedd system gyfan, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hil yn y system Cyfiawnder Troseddol a'i fod yn cynnwys pob grŵp lleiafrifoedd ethnig gan gynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, sydd wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cynllun. Mae'n credu bod y cynllun yn mynd gam ymhellach na Chynllun Gweithredu ar Hil NPCC am ei fod yn gafael yn yr ymagwedd wrth-hiliol ac yn amlygu ymrwymiad Plismona yng Nghymru ac ymrwymiad partneriaid eraill yn yr ymagwedd hon a nododd fod y cynllun yn cydnabod yr hanes, y perthnasau a'r profiadau anodd mae unigolion wedi'u cael gyda'r sefydliadau dan sylw ond amlygodd ei fod yn gwneud hyn mewn ffordd dorfol yn hytrach nag ar sail asiantaethau unigol.

Diolchodd DGHTh Thomas i gydweithwyr o Lywodraeth Cymru am ddangos y ffordd ymlaen i bartneriaid cyfiawnder troseddol gyda'r cynllun hwn am ei bod wedi cynorthwyo i edrych ar ffordd Llywodraeth Cymru o ddatblygu ei chynllun, yn ysbryd cyd-greu a thrwy ymgysylltu â sefydliadau cymunedol a gynorthwyodd wrth i'r cynllun hwn gael ei ddatblygu.

Mewn perthynas â llywodraethu, mae gwaith y Tasglu Gwrth-hiliaeth yn flaenoriaeth strategol i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Mae'n alinio â strwythurau Llywodraeth Cymru ac mae'n dangos parch mawr at gyfraniad cydweithwyr o Lywodraeth Cymru a'r Uned Dystiolaeth o ran symud y gwaith yn ei flaen. Esboniodd DGHTh Thomas fod partneriaid cyfiawnder troseddol hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd atebolrwydd a goruchwylio wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu; gwnaed hyn mewn modd cydgynhyrchiol ac ymgysylltiol â chymuned ac yn ogystal, mae ymrwymiad wedi'i bwysleisio drwy sefydlu Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol. Nododd DGHTh Thomas ei bod hi a DGHTh Wools yn teimlo'n fregus wrth ymgymryd â'r rôl hon ond eu bod wedi cael cefnogaeth gan y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) ac aelodau o swyddfeydd yr holl Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac yn arbennig drwy gymorth ariannol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac HMPPS fel ei gilydd wrth ymgymryd â'r gwaith ymgysylltu â chymunedau a sefydlu'r panel.

O ystyried lefel y diffyg ymddiriedaeth, y pryder a'r negyddoldeb a glywyd gan DGHTh Thomas a DGHTh Wools gan gymunedau mewn perthynas ag asiantaethau cyfiawnder troseddol, a phlismona'n arbennig, nododd er gwaethaf hyn fod 13 o geisiadau ar gyfer Cadeirydd y Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol, ynghyd â 63 o geisiadau i fod yn aelodau o'r panel. Mae'n teimlo bod hyn yn talu teyrnged i'r dilysrwydd a'r gonestrwydd sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynllun am fod unigolion wedi dechrau dymuno gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol oherwydd eu bod wedi gweld bod pethau'n cael eu gwneud mewn ffordd wahanol a Nododd DGHTh Thomas ei bod yn teimlo'n freintiedig i fod yn rhan o'r broses ddethol.

Dywedodd DGHTh Thomas fod y lansiad ar 8 Medi yn gyfle gwych i Gadeirydd a Chyd-gadeirydd y Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol eistedd ochr yn ochr â Phanel Annibynnol Llywodraeth Cymru yn ogystal â Chadeirydd Panel Annibynnol yr NPCC i feddwl am sut y gallant weithio ar y cyd i gefnogi'r her a darparu'r ffordd ymlaen.

Pwysleisiodd DGHTh Thomas unwaith eto bwysigrwydd yr ymrwymiad a'r gwaith o gyflawni'r cynllun hwn oherwydd natur datblygu'r cynllun, ochr yn ochr â chymunedau sy'n awyddus i weld eu mewnbwn yn arwain at gamau gweithredu.

**3.3.1.** Estynnodd CHTh Cuthbert ei ddiolchiadau i CHTh Llywelyn am y gwaith mae ef wedi'i wneud ar gasglu data a gwahoddodd unrhyw sylwadau gan aelodau'r bwrdd.

**3.3.2.** Canmolodd PG Kelly angerdd DGHTh Thomas o ran ymrwymiad yr holl aelodau at y cynllun. Nododd hefyd i eraill nad ydynt wedi bod yn gysylltiedig â'r gwaith, fod hyn yn rhywbeth mae Plismona yng Nghymru a phartneriaid Cyfiawnder Troseddol wedi gweithio ar y cyd arno a nododd ei bod yn teimlo'n freintiedig i fod yn rhan ohono. Ychwanegodd fod hyn eisoes yn dechrau gwneud gwahaniaeth; mae angen darparu tystiolaeth nawr o'r hyn mae sefydliadau'n ei wneud yn erbyn y cynllun. Felly, bydd Prif Uwch-arolygydd Ian Roberts o Heddlu Gwent yn ymgymryd â'r dystiolaeth y gall heddluoedd ei chyfrannu at y cynllun hwn, o du swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid, a fydd yn cysylltu'n awtomatig â Chynllun Gweithredu ar Hil yr NPCC. Mae PG Kelly o'r farn bod cynllun yr NPCC yn cyfeirio at blismona'n unig ond bod Cynllun Gweithredu ar Hil Cyfiawnder Troseddol yn gynllun partneriaeth ac felly yn llawer pellach ymlaen. Nododd fod angen gweithio'n gyflym nawr er mwyn parhau i gyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol sydd wedi cyfrannu at y cynllun hwn am fod pobl ifanc yng Nghymru sydd â gobeithion mawr o'r hyn mae'r cynllun hwn yn mynd i'w ddarparu iddynt hwy ac i genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Felly, gofynnodd PG Kelly a allai hon fod yn eitem sefydlog ar agenda Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru er mwyn derbyn diweddariadau ar gynnydd gan Gyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

**3.3.3.** Pwysleisiodd Chris Jennings ei fod hefyd yn eithriadol o falch bod HMPPS yn gysylltiedig â'r cynllun am ei bod yn enghraifft wych o weithio ar y cyd ar draws y system. Soniodd fod y gwaith o ddatblygu'r cynllun heb fod yn sgwrs am sefydliadau penodol, ond yn hytrach yn drafodaeth am sut y gall cyfiawnder troseddol wasanaethu pobl Cymru'n well. Cynghorodd y bydd yn anodd ar gyfer ei ran ef o'r cynllun fel partner annatganoledig ond ei fod yn gwbl ymrwymedig i gyflawni camau gweithredu'r cynllun.

**3.3.4.** Ategodd Asim Hafeez ddiolchiadau pawb am y gwaith aruthrol sydd wedi mynd i mewn i'r cynllun. Nododd fod y cynllun hwn yn mynd i'r afael â rhai o bryderon y cyhoedd ar sail materion cenedlaethol drwy'r cyfryngau, felly pwysleisiodd fod y cynllun cyfathrebu i dynnu sylw at hyn yn y gymuned lawn bwysiced â chyflawni'r cynllun, felly holodd a oes cynllun cyfathrebu ar y cyd. Soniodd hefyd am yr effaith y gall y gwaith hwn ei chael ac roedd am amlygu tair elfen o Gynllun Gweithredu ar Hil y Swyddfa Gartref; Mwy o Gynrychiolaeth o gydweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol ar bob gradd ac ym mhob rhan o'r Gwasanaeth Sifil; Gwella Profiad Bywyd cydweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn y Swyddfa Gartref a Sicrhau ein bod ni i gyd yn deall y gymuned a'r cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu'n well ac yn gweithio i wella'r ffordd rydym yn ymdrin â Materion Hil mewn Polisïau a Gweithrediadau. Esboniodd fod y rhain yn ganlyniad uniongyrchol i Adolygu AEF Williams, *Lessons Learned*, ac mae'r drydedd elfen yn arbennig yn rhan o gynllun cyfathrebu'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r ffordd mae'r Swyddfa Gartref yn

cyfathrebu â'r cyhoedd, yn ogystal â chaniatáu i bobl y tu allan i'r Swyddfa Gartref gyfathrebu yn ôl.

**3.3.5.** Cytunodd AEF Williams â sylwadau Asim am y cynllun cyfathrebu a phwysigrwydd codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cyd-destun darparu gwasanaethau.

**3.3.6.** Ymatebodd DGHTh Thomas i Asim drwy gynghori bod llinyn gwaith a thasglu ar wahân ar gyfathrebu ac ymgysylltu ac esboniodd fod amrywiaeth o arbenigedd yn y grŵp cyfathrebu gan arweinwyr cyfathrebu o asiantaethau cyfiawnder troseddol yn ogystal ag o gymunedau. Mae cynllun cyfathrebu ar gael, ond nododd ei fod yn bwynt dilys o ran pwysigrwydd parhau i gyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau.

Diolchodd CHTh Cuthbert i bawb a gymerodd ran yn y drafodaeth bwysig hon.

**4. Cyllido Heddluoedd Cymru a goblygiadau hyn**

Esboniodd CHTh Cuthbert mai diben yr eitem hon ar yr agenda yw nodi ar gofnod ei fod wedi llofnodi llythyr ar ran Plismona yng Nghymru a anfonwyd at Brif Weinidog Cymru. Parhaodd drwy ddweud y bydd Llywodraeth Cymru'n ymateb i'r llythyr a bydd Plismona yng Nghymru'n ystyried yr ymateb unwaith iddo ddod i law, a chred y bydd yn destun trafod pellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**5. Unrhyw faterion sy'n codi o gyfarfod Plismona yng Nghymru y dylid eu huwchgyfeirio**

Cododd CHTh Cuthbert fater ynghylch effaith bosibl streic y Bargyfreithwyr ar ddioddefwyr ac ar dystion sy'n disgwyl cael cyfiawnder. Nododd yr angen i'r holl wasanaethau cyhoeddus geisio lleiafu'r effaith a chefnogi dioddefwyr ar yr adeg anodd hon; mae'n gobeithio y bydd modd cyflawni hyn drwy waith cydlynu Llywodraeth Cymru a chynghorodd y bydd hwn yn destun trafod pellach.

**6. Diweddariadau gan Bartneriaid yn ôl Eithriad**

Nododd CHTh Cuthbert fod y rhan fwyaf o'r diweddariadau wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod ond rhoddodd gyfle i bartneriaid ychwanegu unrhyw sylwadau ychwanegol.

**6c.** Ni chyflwynodd Joanne Hopkins o Iechyd Cyhoeddus Cymru nodyn briffio ysgrifenedig, felly hoffai sôn bod ICC yn mynd i gyflawni adolygiad cyflym o hyfforddiant ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ym maes Plismona a Chyfiawnder Troseddol; ei hymchwilydd, Huw Williams, fydd yn arwain ar hyn. Bwriad yr adolygiad yw deall sefyllfa bresennol y rhaglen a sut mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu, tra'n talu sylw i unrhyw bwyntiau dysgu.

**6d.** Roedd Asim Hafeez am amlygu'r ffaith fod yr Ysgrifennydd Cartref, yn ei hanerchiad i'r Swyddfa Gartref, wedi nodi mai ei phrif flaenoriaeth yw gwneud y strydoedd yn fwy diogel, canolbwyntio ar faterion yn gysylltiedig ag ymfudo fel achosion o groesi'r Sianel mewn cychod bach, trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ychwanegodd fod Jeremy Quin AS wedi'i gadarnhau fel y Gweinidog Plismona newydd, a chyn gynted ag y caiff y Swyddfa Gartref gyfle i roi brîff iddo am unrhyw faterion yn gysylltiedig â Phlismona yng Nghymru, bydd yn gwneud hyn am ei fod yn ymwybodol bod unigolion wedi bod yn aros peth amser, felly diolchodd i'r aelodau am eu hamynedd.

**6e.** Nododd Chris Jennings fod gan HMPPS dîm Gweinidogol newydd yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Nododd fod Brandon Lewis AM wedi'i gyhoeddi fel yr Arglwydd Ganghellor newydd a bod Is-Weinidogion hefyd wedi'u penodi. Nododd hefyd fod HMPPS yn siomedig ar y diffyg cynnydd a gyflawnwyd hyd yma gyda'r Ganolfan Breswyl newydd i Fenywod yn Abertawe.

**6h.** Amlygodd Naomi Alleyne y ffaith bod y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel yn hysbysebu am Bennaeth ar gyfer y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel ac y byddai'n ddiolchgar i'r wybodaeth hon gael ei rhannu.

## 7. Unrhyw Fater Arall

Ni ddatganwyd unrhyw fater arall.

## Dyddiad ac Amser y cyfarfod nesaf

Dydd Iau 15 Rhagfyr 2022 am 1:30pm